CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

ar gyfer

**CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

ar

**DYDD IAU**
**25 MEDI 2025**

**→ am 2:00 o'r gloch ←**

# SUMMONS AND AGENDA

for a

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

on

**THURSDAY**
**25 SEPTEMBER 2025**

**→ at 2:00 pm ←**

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

# R H A G L E N

1. **COFNODION**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y Cyngor Sir blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2025.

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3. **CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, Arweinydd neu'r Prif Weithredwr.

4. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

5. **RHYBUDD O GYNNIG**

- I dderbyn y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Aled M Jones: -

  *"Mae Annibynwyr Môn yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i geisio adolygiad barnwrol ar y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i roi caniatâd cynllunio i'r datblygiad Fferm Solar, Alaw Môn.*

  *Mae'r datblygiad arfaethedig hwn wedi achosi llawer iawn o bryder i'n cymunedau ac mae'n rhaid i ni fel Cyngor Sir geisio'r holl ddulliau posibl o herio'r penderfyniad hwn."*

- I dderbyn y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Gary Pritchard: -

  *"Mae'r Cyngor yn datgan siom a rhwystredigaeth ym mhenderfyniad Llywodraeth Cymru i ganiatau datblygiad fferm solar Alaw Môn yn groes i'w polisiau ar ddefnydd o diroedd amaethyddol ffrwythlon ac amrywiol.*

  *Gofynir i'r Cyngor archwilio pob llwybr posib, gan gynnwys llwybrau cyfreithiol, i herio'r penderfyniad."*

6. **ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS AR GYFER 2024/25**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2025.

7. **HUNANASESIAD AC ADRODD AR BERFFORMIAD**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 23 Medi 2025.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2024/25**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2024/2025**

I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau ar 12 Mehefin 2025.

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2024-25 – ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilo ar 26 Mehefin 2025.

**11. CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.